Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Pentreuchaf
## Pentreuchaf
## Pwllheli
## Gwynedd
## LL53 8DZ

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Pentreuchaf

Lleolir yr ysgol ar gyrion Pentreuchaf, ger Pwllheli yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig gyfagos sy'n cynnwys pentrefi Llannor, Llithfaen, Rhydyclafdy yn ogystal â Phentreuchaf. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 99 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 4 oed meithrin. Fe'u rhennir yn 4 dosbarth oedran cymysg.

Tros y tair blynedd ddiwethaf, mae tua 10% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol 18%. Mae tua 80% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 12% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol, sef 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2009. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Medi 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn dangos balchder tuag at yr iaith a gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol. Yn ystod eu cyfnod yno, mae rhan fwyaf ohonynt yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus ac yn gwneud cynnydd da.

Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol, sy'n meithrin awyrgylch dysgu cefnogol i'r disgyblion. Mae'r athrawon yn darparu profiadau dysgu diddorol i'r disgyblion, sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hapus i'w mynychu, gyda'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr ac yn ymfalchïo yn eu hysgol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol sy'n rhoi cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae'r staff yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'r ysgol ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn bwrpasol i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am safonau.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Rhannu nodweddion gorau'r addysgu ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn her i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A2 Sicrhau bod disgyblion cyfnod allweddol 2 yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith eu hunain

A3 Gwella medrau sillafu Saesneg disgyblion cyfnod allweddol 2

A4 Sicrhau cyfleoedd cyson a phriodol i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae medrau gwrando a siarad bron bob disgybl yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n gyflym. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn canolbwyntio'n dda ac yn trafod eu tasgau â hyder cynyddol gan ddefnyddio geirfa eang a chywir. Maent yn awyddus i siarad am eu gwaith a'u profiadau, er enghraifft wrth drafod cynefin yr orangwtang fel rhan o waith thema ar y goedwig law. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon. Mae ganddynt falchder yn eu Cymreictod a'u hardal leol. Mae bron bob un yn siarad Cymraeg yn gwbl naturiol, er enghraifft wrth drafod a chymharu nodweddion yr ysgol dros gan mlynedd yn ôl gyda'r ddarpariaeth bresennol. Gallant fynegi eu hunain yn aeddfed yn y Gymraeg a'r Saesneg, er enghraifft wrth ddisgrifio cymeriadau mewn llyfrau a chrynhoi'r prif ddigwyddiadau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd da yn gyson. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau'n gywir ac yn dechrau adnabod geiriau'n hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant ac yn trafod cynnwys eu llyfrau yn aeddfed. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau darllen i ddarganfod ffeithiau penodol fel hanes bywyd anifeiliaid gwyllt yn Affrica, er enghraifft. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ddeallus yn y ddwy iaith. Maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn gyson ac aeddfed i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Enghraifft dda o hyn yw gwaith y disgyblion hŷn wrth ddysgu am foddi Cwm Tryweryn. Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda ac, erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, maent yn ymestyn eu syniadau'n effeithiol wrth ysgrifennu stori ddiddorol i'w darllen amser gwely, er enghraifft. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw cerddi'r disgyblion hŷn ar thema 'Ffrindiau' a 'Breuddwydion' sy'n efelychu arddull bardd lleol yn dilyn ei hymweliad â'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn fedrus, er enghraifft wrth ysgrifennu erthyglau papur newydd am y glaniad cyntaf ar y lleuad neu wrth roi cyfarwyddiadau ar sut i deithio o Bentreuchaf i Ynys Enlli. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y Gymraeg. Er hyn, mae gormod o wallau sillafu cyffredin yn nodwedd o waith lleiafrif o ddisgyblion yn y Saesneg.

Mae bron pob disgybl yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd cryf yn eu datblygiad mathemategol. Erbyn Blwyddyn 2, mae ganddynt afael gadarn ar ffeithiau rhif a mesur ac maent yn trin arian yn gywir. Maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson ar draws y meysydd dysgu. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda yn ar y sylfaen gadarn hon yn ystod gwersi mathemateg. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i ddatrys problemau, er enghraifft wrth drafod cost i deulu deithio ar reilffordd Eryri. Maent yn gwneud defnydd priodol o'u medrau trin data wrth ddehongli graff llinell, er enghraifft i gymharu tymheredd mewn gwahanol ddinasoedd. Er hyn, nid ydynt bob amser yn defnyddio'u medrau rhifedd ar yr un lefel mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob disgybl yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio llechi electronig yn effeithiol. Mae disgyblion Blwyddyn 2, er enghraifft, yn creu llyfryn 'O'r gwellt i'r gwydr' i gofnodi eu gwaith wedi ymweliad â fferm laeth leol. Maent yn hyderus wrth fewnbynnu cyfres o gyfarwyddiadau i degan electronig i gasglu sbwriel. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth ac yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus i gyflwyno'u canfyddiadau, er enghraifft am effaith gwastraff plastig ar yr amgylchfyd. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data i'w galluogi i ddilyn trywyddau ymholi penodol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth drafod effaith ymarfer corff ar guriad y galon. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio rhaglenni animeiddio i gyflwyno syniadau dychmygus.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol, yn teimlo'n gwbl ddiogel yno ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor petai rywbeth yn eu poeni. Maent yn hyderus bod staff yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt yn brydlon. Maent yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol, eu cymuned a'u hiaith ac yn gwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr.

Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at eraill mewn gwersi, yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion. Enghraifft dda o hyn yw eu hymateb brwdfrydig i ddiwrnodau gwyrdd rheolaidd ble mae disgyblion o bob oed yn cydweithio, gan ddangos gofalgarwch a pharch tuag at ei gilydd. Mae'r ychydig o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 sy'n wynebu heriau o ran cynnal ymddygiad da a chyd-chwarae â'u cyfoedion yn cael eu cefnogi yn effeithiol a'u parchu gan eu cymheiriaid. Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd a phrydlon.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Mae bron pob disgybl yn y cyfnod sylfaen yn gweithio'n frwdfrydig, yn annibynnol ac yn cadw'n ddygn ar dasg. Maent yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith, ac yn gwneud penderfyniadau rheolaidd am sut a beth y maent yn ei ddysgu. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymroi i'w tasgau yn ddiwyd, ac yn cydweithio'n gytûn. Pan fydd disgyblion yn ymwneud â gweithgareddau sy'n eu cymell, fel y gwaith yn ymwneud â lladrad plwm diweddar yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau'n frwdfrydig ar dasg. Mae hyn yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn effeithiol. Er hyn, dechrau datblygu mae medrau disgyblion cyfnod allweddol 2 i wella eu gwaith eu hunain. Mae lleiafrif yn or-ddibynnol ar arweiniad athrawon i gwblhau gwaith.

Mae'r disgyblion sydd yn ymgymryd â chyfrifoldebau fel bod yn aelod o'r cyngor ysgol, y cyngor eco a'r Dewiniaid Digidol yn cyflawni eu rolau yn effeithiol. Maent yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned yr ysgol ac yn cymryd eu rolau o ddifrif. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o weithgareddau, fel y prosiect amgylcheddol i greu eco friciau. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion, eu rhieni a'r gymuned ehangach o bwysigrwydd ailgylchu ac edrych ar ôl ein byd.

Drwy'r cyfleoedd sydd ar gael i gydweithio ag ysgolion eraill, fel yr ysgol anghenion dysgu arbennig leol, mae'r disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac anghenion eraill yn effeithiol iawn. Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth wrth godi arian ar gyfer elusennau, er enghraifft diwrnod trwynau coch, Syndrom Down a MacMillan. Enghraifft arbennig yw ymroddiad disgyblion fel Ffrindiau Dementia. Trwy eu hymgyrch, maent wedi meithrin dealltwriaeth dda iawn o'r cyflwr. Trwy astudio gwledydd a chrefyddau amrywiol, maent yn datblygu ymwybyddiaeth dda o ddiwylliannau eraill ac o'r byd ehangach. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth rhan fwyaf ohonynt o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn deall effaith ymarfer corff ar eu hiechyd. Maent yn gwneud defnydd rheolaidd o'r trac rhedeg o amgylch yr ysgol, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u ffitrwydd. Maent yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a gânt i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol ym maes chwaraeon.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynllunio a chyflwyno ystod eang o brofiadau dysgu sy'n ymgysylltu â'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda, ac yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt tra maent yn gweithio, a rhyngweithio â'u cymheiriaid. Mae'r berthynas dda sy'n bodoli rhwng oedolion a rhan fwyaf y disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli a'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar coeth. O ganlyniad, mae rhan fwyaf yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae pwyslais clir ar ddatblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar Gymru a'r etifeddiaeth Gymreig. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol, eu hanes a'u diwylliant.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol, sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Maent yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac yn defnyddio'r wybodaeth honno'n gelfydd wrth gynllunio profiadau dysgu diddorol. Lle mae'r addysgu ar ei orau, yn y cyfnod sylfaen, mae cyflwyniadau dychmygus ynghyd â chyflymder y gwersi yn nodwedd gref o'r addysgu. Yn y dosbarthiadau hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn ac maent yn defnyddio holi penagored yn llwyddiannus iawn er mwyn annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i ymgymryd â'r tasgau yn frwdfrydig ac yn annibynnol. Ar adegau, mae tueddiad i athrawon cyfnod allweddol 2, arwain gormod ar y gweithgareddau sy'n cyfyngu ar allu'r disgyblion i weithio'n annibynnol. Mae hyn hefyd yn cyfyngu ar lefel yr her, yn enwedig i'r disgyblion o allu uwch.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n llawn. Mae'r athrawon yn cynnwys syniadau'r disgyblion yn llwyddiannus iawn wrth gynllunio cydbwysedd effeithiol o weithgareddau o dan arweiniad staff a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu. O'r cychwyn cyntaf, mae'r athrawon yn darparu tasgau a phrofiadau ysgogol sy'n ennyn diddordeb bron bob un o'r disgyblion yn

effeithiol iawn.  Defnyddir amrediad o weithgareddau dychmygus a heriol sy'n magu annibyniaeth ymysg disgyblion yn effeithiol.  O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i feddwl drostynt eu hunain.  Mae hyn yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn llwyddiannus iawn.  Mae'r staff yn gwneud defnydd effeithiol a hyblyg o adnoddau'r ysgol, gan gynnwys yr ardaloedd tu allan er mwyn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu.

Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn darparu ystod o brofiadau dysgu gwerthfawr sy'n bodloni anghenion llawer o'r disgyblion yn effeithiol.  Maent yn darparu themâu trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith diddorol sy'n ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion yn dda.  Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gweddu tasgau'n ddigon da i'r ystod gallu o fewn y dosbarthiadau er mwyn herio'r holl ddisgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu.  Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm.  O ganlyniad, mae rhan fwyaf yn trosglwyddo a chymhwyso'r medrau hyn yn hyderus.  Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd i'r un graddau ar draws y cwricwlwm.  Mae'r ysgol wedi ystyried y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn ofalus, gan sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau TGCh yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau'r defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu.  Mae rhan fwyaf yr athrawon yn cynnig adborth gwerthfawr i'r disgyblion yn ystod gwersi ac yn eu hannog i ddyfalbarhau a myfyrio ymhellach ar sut i wella eu gwaith.  Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws yr ysgol a chyfyng yw'r cyfle i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 arwain a gwella eu gwaith.

## Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da

Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol.  Maent yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol.  Mae cyfnodau cyd-addoli gwerthfawr yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ystyried safbwyntiau eraill, yn ogystal â rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar sut y gellir edrych ar ôl ein byd.  Mae'r ysgol wedi mabwysiadu nifer o strategaethau'n ddiweddar i ymateb i anghenion emosiynol ychydig o ddisgyblion.  Enghraifft effeithiol o hyn yw'r defnydd a wneir o ioga a meddylfryd gwyrdd i ddatblygu lles emosiynol ac agweddau cadarnhaol disgyblion at eu dysgu.

Mae'r pwyslais ar hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn gryfder ac yn ennyn balchder y disgyblion yn eu diwylliant, eu hetifeddiaeth a'u dwyieithrwydd.  O ganlyniad, Cymraeg yw'r iaith y mae bron pob un o'r disgyblion yn dewis ei siarad, o fewn a thu allan i'w dosbarthiadau.  Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion yn effeithiol iawn.  Darperir nifer fawr o ddigwyddiadau ac ymweliadau cyfoethog gan awduron, artistiaid a cherddorion lleol i ehangu profiadau creadigol y disgyblion.  Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion berfformio a chystadlu mewn eisteddfodau a chystadlaethau fel y cwis llyfrau.  Mae hyn yn datblygu eu hunanhyder a'u gallu i gydweithio yn effeithiol.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn gadarn.  Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau hyn yn llwyddiannus i ymateb i anghenion disgyblion a grwpiau penodol sydd angen cymorth ychwanegol.  Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addas i adnabod ac i

ddarparu ymyrraeth briodol ar eu cyfer. Mae'r ystod o ymyraethau yn galluogi'r disgyblion hyn i wneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae cynlluniau addysg unigol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys targedau clir sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol gan athrawon a chymorthyddion i sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau. Mae'r staff yn monitro cynnydd disgyblion yn rheolaidd gyda'r disgyblion a'r rhieni ynghlwm â'r broses adolygu. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau arbenigol sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad gwerthfawr iddynt. Mae'r ysgol wedi rhoi systemau cadarn yn eu lle er mwyn cefnogi lles emosiynol carfan o ddisgyblion ac i hyrwyddo ymddygiad da.

Mae'r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni. Mae staff yn cyfathrebu'n briodol gyda'r rhieni a darperir cyfleoedd tymhorol i athrawon rannu gwybodaeth â nhw trwy gyfarfodydd ac adroddiadau. Mae'r ysgol yn ystyried barn y rhieni yn gyson. Mae cyfeillion yr ysgol yn gefnogol iawn ac yn cyfrannu at brosiectau a chymuned yr ysgol. Enghreifftiau o hyn yw cynnal bore coffi MacMillan a chynnal noson i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned. Mae'r disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn rhoi cyflwyniadau gwerthfawr i rieni ar brosiectau cerdd a chân ac ailgylchu. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth y rheini o waith y disgyblion yn yr ysgol ac yn eu galluogi i gefnogi eu gwaith yn y cartref.

Mae ffocws clir ar ddatblygu addysg bersonol a chymdeithasol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn ogystal â chadw'n heini. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth disgyblion o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles. Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd helpu eraill yn gyson, er enghraifft trwy gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o anghenion pobl eraill yn effeithiol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol ac yn hybu cymuned glòs a chynhwysol. Mae ganddo weledigaeth eglur sy'n seiliedig ar sicrhau amrediad o brofiadau dysgu cyfoethog ar gyfer y disgyblion mewn awyrgylch hapus a chefnogol sy'n 'rhoi dau beth pwysig i'r disgyblion, un yw gwreiddiau a'r llall yw adenydd'. Mae hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn flaenoriaeth iddo ac mae'n ganolog i holl waith yr ysgol. Mae'r pennaeth yn gweithio gyda'r staff, y disgyblion, y llywodraethwyr a'r rhieni i weithredu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus. Mae'r staff yn ymroddgar ac yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac effeithiol. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy.

Mae'r weithdrefn hunanwerthuso yn greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae wedi ei sefydlu'n gadarn ac mae'n canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau disgyblion ac effaith y ddarpariaeth, yr addysgu a'r gofal. Mae gweithgareddau monitro rheolaidd yn rhan allweddol o weithdrefnau codi safonau parhaus yr ysgol. Mae'r staff yn gwneud defnydd effeithiol o wahanol ffynonellau tystiolaeth hunanwerthuso, gan gynnwys arsylwi gwersi, teithiau dysgu a gwrando ar ddysgwyr er mwyn adnabod perfformiad presennol. Mae hyn yn rhoi adnabyddiaeth dda iddynt o gryfderau a mannau gwelliant ac mae'r ysgol yn dangos cynnydd da yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yng nghynlluniau gwelliant yr ysgol. Mae hyn, er enghraifft, wedi arwain at welliant yn safonau llafar a medrau cymdeithasol disgyblion y blynyddoedd cynnar.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddgar ac yn gefnogol i'r ysgol. Trwy gydweithio â staff, er enghraifft wrth arsylwi gwersi, maent yn chwarae rôl weithredol ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ddarpariaeth a'r meysydd i'w gwella ac yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol. Mae aelodau'n defnyddio eu harbenigeddau'n effeithiol i gefnogi'r ysgol, er enghraifft trwy gyfrannu at weithgareddau fel datblygu medrau menter disgyblion ac i hyrwyddo'r defnydd o strategaethau datblygu gwydnwch disgyblion i wynebu heriau yn eu dysgu.

Mae'r pennaeth yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i staff elwa o weithgareddau dysgu proffesiynol sy'n berthnasol i gyflawni blaenoriaethau'r ysgol drwy rannu arferion da gydag ysgolion eraill, er enghraifft. Mae hyn yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol yn effeithiol a'u harfogi i arwain ar agweddau fel rhifedd, llythrennedd ac addysg arbennig. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau i'r addysgu a'r dysgu, er enghraifft wrth wella medrau llythrennedd a datblygu gwydnwch disgyblion. Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae staff yn frwdfrydig wrth fynd i'r afael â datblygiadau diweddar ym maes addysg, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a chyflwyno'r fframwaith cymhwysedd digidol. Trwy hyrwyddo Siarter Iaith yr awdurdod lleol, mae staff yn llwydo i fagu dysgwyr hyderus yn y Gymraeg sy'n ymfalchïo yn eu Cymreictod a'u hardal leol.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus, ac yn sicrhau bod cyflenwad priodol o adnoddau perthnasol i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o arbenigeddau staff i hybu gweithgareddau celfyddydol a mynegiannol, er enghraifft. Yn ogystal, mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o arbenigeddau o fewn y gymuned er mwyn cynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion sy'n cyfrannu'n dda at eu lles a'u safonau. Er enghraifft, mae'r cydweithio â becws leol, a chlwb pêl-droed cyfagos, yn cynnig cyfleoedd buddiol i gymhwyso medrau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destun byd busnes a byd chwaraeon.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o grantiau'n fwriadus, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i gyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u cyraeddiadau.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/07/2019